CYFRES A7

# amserbeibl

## Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



Storïau Beiblaidd o'r Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

## Stori 1 Pedr yn pregethu



DARLLENWCH
Actau 2: 1-14, 36-39

*Mae'r stori yma'n sôn am:*

**Yr Ysbryd Glân yn dod**

Roedd Iesu Grist wedi mynd nôl i'r Nefoedd. Ar ôl rhai dyddiau, anfonodd yr Ysbryd Glân i helpu ei ddisgyblion. Roedd angen help yr Ysbryd Glân ar y disgyblion i ddweud wrth y bobl am Iesu.




**Lliwiwch y llun o Pedr yn siarad â llawer o bobl.**

**Pwy ddaeth i helpu'r disgyblion?**

**Y__ Y__ __ __ __ __ __ G__ __ __**

Pan ddaeth yr Ysbryd Glân, roedd y disgyblion mewn tŷ. Pan ddaeth yr Ysbryd Glân, roedd yn swnio fel gwynt ac yn edrych fel tân. Gwnaeth yr Ysbryd Glân y disgyblion yn ddigon cryf a dewr i ddweud y newyddion da am Iesu wrth bawb.

Dechreuodd Pedr bregethu wrth dorf fawr o bobl y tu allan i'r tŷ. Dywedodd y dylai fod yn ddrwg ganddyn nhw am yr hyn roedden nhw wedi'i wneud i IESU. Dylen nhw gredu ynddo a byddai Duw yn maddau iddyn nhw.



**Lliwiwch y llun**